# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Ardal Pen Llŷn



CYNGOR GWYNEDD

# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **17** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol yn Ardal Pen Llŷn gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.






NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU'N IAU
16 - 24 OED
25 - 34 OED
35 - 44 OED
45 - 54 OED
55 - 64 OED
65 - 74 OED
75 - 84 OED
85+ OED
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
43
93
380
581
859
890
525
144
22
146
0
200
400
600
800
1000



YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Ardal Pen Llŷn


## 3.1 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Ardal Pen Llŷn


3.2 Derbyniwyd **334** o ymatebion i’r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Ardal Pen Llŷn.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
DARLLEN CYMRAEG
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
DDIM YN DEALL CYMRAEG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
183
153
143
126
76
56
0
50
100
150
200



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
SAESNEG
ALBANAIDD
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
PRYDEINIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
79
48
2
1
89
33
4
0
20
40
60
80
100


BETH YW EICH HIL?
GWYN
CARIBÏAIDD DU / AFFRICANAIDD
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
317
2
1
39
0
50
100
150
200
250
300
350


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
MWSLIM
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
184
1
2
60
100
12
0
50
100
150
200


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DEURYWIOL
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
290
4
1
59
1
0
50
100
150
200
250
300
350


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
2
NA
309
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
44
0
50
100
150
200
250
300
350


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
24
NAC YDW
292
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
43
0
50
100
150
200
250
300
350

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Ardal Pen Llŷn

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Ardal Pen Llŷn.

| **Tref/Pentref** | **Nifer o ymatebwyr** |
|---|---|
| • Abersoch | **59** |
| • Nefyn | **53** |
| • Morfa Nefyn | **42** |
| • Llanbedrog | **41** |
| • Arall: | **27** |
| • Myntho | **20** |
| • Edern | **19** |
| • Aberdaron | **17** |
| • Llangwnadl | **14** |
| • Llanengan | **9** |
| • Tudweiliog | **9** |
| • Dinas | **7** |
| • Sarn Meyllteyrn | **7** |
| • Botwnnog | **6** |
| • Rhiw | **6** |
| • Rhoshirwaun | **6** |
| • Bryncroes | **4** |
| • Bwlchtocyn | **4** |
| • Llaniestyn | **3** |
| • Sarn Bach | **2** |

# 5 Beth sy'n dda am Ardal Pen Llŷn

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Pen Llŷn. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Pen Llŷn i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Beth sy'n dda am Ardal Pen Llŷn? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **285** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **215** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | **183** |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **152** |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal | **147** |
| • Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon | **126** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol, gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol | **111** |
| • Mae'r ardal yn lân a thaclus | **96** |
| • Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal | **84** |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai | **82** |
| • Y potensial i ddatblygu'r sector ynni adnewyddadwy yr ardal | **50** |
| • Gwasanaeth a darpariaeth iechyd da yn lleol | **48** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **22** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus a bysus cymunedol | **16** |

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Ardal Pen Llŷn sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **65** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad (n=18); Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd (n=7); Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd yn dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Yr ymdeimlad o gymuned. | **13** |
| • Ysgolion da. | **4** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda Chlwb atgofion chwaraeon criw Dementia Actif Gwynedd yn Nhafarn Yr Heliwr, Nefyn. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Ardal Pen Llŷn?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Pen Llŷn. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Pen Llŷn i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Ardal Pen Llŷn?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **176** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **165** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a tai haf yn yr ardal | **154** |
| • Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **115** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc | **108** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **105** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd a lles a gofal yn yr ardal | **104** |
| • Mae pryder am ffyrdd a parcio mewn nifer o leoliadau | **92** |
| • Mae band eang a chysylltiad we yn wael | **85** |
| • Mae cau ysgolion gwledig yn fygythiad i hyfywdra'r ardal | **67** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr yr iaith | **58** |
| • Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal | **55** |
| • Diffyg cynnal a chadw llwybrau cerdded i'w cadw'n daclus a diogel | **55** |
| • Dim digon o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ac nifer o adeiladau cymunedol mewn cyflwr gwael | **51** |
| • Diffyg darpariaeth gofal a gweithgareddau i bobl hŷn | **49** |
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **37** |
| • Mae nifer o unigolion yn teimlo unigrwydd | **22** |

- Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd ddim mor dda am Ardal Pen Llŷn sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **103** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem (n=10); Mae pryder am ffyrdd, parcio a thraffig mewn nifer o leoliadau (n=8); Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser (n=7); Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal (n=5); Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu (n=5); Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (n=4).

O’r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cyfundrefn Gynllunio | **9** |
| • Canfyddiad o ddiffyg cydlyniad cymunedol | **7** |
| • Dim digon o fuddsoddiad yn yr ardal | **7** |
| • Pryderon ynghylch darpariaeth iechyd a gofal yn yr ardal | **5** |
| • Diffyg llwybrau beicio a palmentydd addas | **4** |

6.2 Yn ychwanegol i’r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda Chlwb atgofion chwaraeon criw Dementia Actif Gwynedd yn Nhafarn Yr Heliwr, Nefyn. Mae’r sylwadau yma i’w gweld yn Atodiad A.

6.3 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Pen Llŷn dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Pen Llŷn. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Pen Llŷn i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Thema** | **Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis** |
|---|---|
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **157** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol a hyrwyddo cynnyrch lleol byddai hefyd yn denu mwy o fusnesau fydd yn creu swyddi gwerth uchel i'r ardal | **145** |
| • Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | **142** |
| • Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | **118** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **113** |
| • Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol | **112** |
| • Adolygu Polisïau Cynllunio | **97** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | **84** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **81** |
| • Mwy o gynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogaeth i bobl ifanc | **80** |
| • Cynlluniau i daclo tlodi | **78** |
| • Uwchraddio adeiladaeth band eang | **76** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith | **70** |
| • Cynlluniau i wella llwybrau beicio a cherdded yr ardal a gwneud y defnydd gorau bosib o gefn gwlad | **68** |
| • Cynlluniau i ddatrys problemau parcio mewn sawl rhan o'r ardal | **52** |

| | |
|---|---|
| • Cynlluniau i annog ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth gyfoethog yr ardal | **51** |
| • Cynlluniau i hybu gweithgareddau cymunedol, creadigol a diwylliannol rheolaidd yn yr ardal | **45** |
| • Cynlluniau i daclo materion sbwriel a gwella'r gwaith o gynnal a chadw yr ardal | **42** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod',** derbyniwyd **66** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i gryfhau'r adnoddau iechyd a gofal yn lleol (n=7); Adolygu Polisïau Cynllunio (n=6); Cyflwyno deddfwriaeth i reoli'r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol (n=5); Mwy o gynlluniau ar gyfer darparu gweithgareddau a chefnogaeth i bobl ifanc (n=4); Cynlluniau i wella llwybrau beicio a cherdded yr ardal a gwneud y defnydd gorau bosib o gefn gwlad (n=4); Cynlluniau i daclo materion sbwriel, gan gynnwys baw ci, a gwella'r gwaith o gynnal a chadw yr ardal (n=4).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Cefnogaeth i'r sector dwristiaeth | **4** |
| • Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn ambell i ardal | **3** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda Chlwb atgofion chwaraeon criw Dementia Actif Gwynedd yn Nhafarn Yr Heliwr, Nefyn. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau dalgylch Pen Llŷn yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal dalgylch Pen Llŷn.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Sylwadau adeg y sesiwn wyneb i wyneb yng Nghlwb atgofion chwaraeon criw Dementia Actif Gwynedd yn Nhafarn Yr Heliwr, Nefyn (16/6/22).**

**Beth sy'n dda am Ardal Pen Llŷn?**

- Glan y môr.
- Clybiau da – canfod gân.
- Ganolfan hamdden da - Ganolfan garddio, sied peintio, chwarae offerynnau
- Côr.
- Gymdeithas yn cychwyn yn ei ôl ar ôl COVID.
- Cymunedol iawn.
- Llefydd da i gerdded.
- Siop Spar yn coginio i'r henoed.
- Gyrwyr bysiau yn gyfeillgar.
- Llwybrau yn dda i scooters.
- Trafnidiaeth o ddrws i ddrws yn dda.

**Beth sydd ddim mor dda am Ardal Pen Llŷn**?

- Difrod ar y traeth.
- Roedd arfer bod bowling green yn yr ardal.
- Pobl Ifanc yn symud allan o'r ardal.
- Dim llawer o swyddi.
- Trafnidiaeth Cyhoeddus yn annigonol - dim teithiau hwyr ac methu cael gofalwyr i'r henoed sydd yn byw yn cartref eu hunain. Hefyd yn anodd i bobl sydd ddim yn gyrru i gael a chadw swyddi.
- Ddim yn cadw llwybrau yn lan a thaclus, gwair wedi gôr dyfu.
- Dim banc.

**Beth ydych eisiau gweld yn digwydd er mwyn gwneud yr ardal yn le gwell i fyw ynddo?**

- Byddai'n dda cael ten-pin bowling.
- Angen mwy o ddigwyddiadau cerddorol.
- Angen mwy o eglured a chyfathrebu o ran pwy sydd yn gwneud be i'r gymuned e.e. rôl Cyngor Gwynedd, Cynghorau lleol ac ati.

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000